Criminal Justice Joint Inspection

# Effaith y pandemig ar y System Cyfiawnder Troseddol

Golwg ar y cyd gan Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol ar ymateb y System Cyfiawnder Troseddol i Covid-19

**Ionawr 2021**

HMCPSI
HM Crown Prosecution Service Inspectorate

HMICFRS
Her Majesty's Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services

HM Inspectorate of Prisons

Her Majesty's Inspectorate of Probation

Os gofynnwch i ni, gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn Braille,
print bras neu mewn ieithoedd eraill ar wahân i Saesneg.

Am wybodaeth neu am ragor o gopïau o'r adroddiad hwn,
cysylltwch â ni ar 020 7210 1160,
neu fynd i'n gwefan:
justiceinspectorates.gov.uk/hmcpsi

# Cynnwys


**1. Foreword ........ 4**

Ynghylch yr adroddiad hwn ........ 6

**2. Ymateb ........ 8**

Ymateb cychwynnol: penderfyniadau cyflym, pragmatig i gadw'r system yn gweithredu ........ 9

Cyflymu'r gwaith digidol ........ 10

Risg: gostyngiadau mewn darpariaeth addysg ac adsefydlu ........ 13

**3. Effaith ........ 16**

Llesiant Staff ........ 17

Profiad defnyddwyr gwasanaeth ........ 17

Risg: Mae angen gwerthuso'n iawn newidiadau yn sgil Covid-19 a (lle bo'n briodol) sicrhau bod yna ddigon ohonynt ........ 19

**4. Risg fawr: Gwaith wedi ôl-gronni yn y system ........ 22**

Ôl-groniadau'r llysoedd ........ 24

**5. Sylwadau i gloi ........ 28**

**Atodiadau**

**Glossary ........ 30**

# 1. Rhagair

Mewn cyferbyniad eglur â chymaint arall yn y flwyddyn fwyaf rhyfeddol hon, ni oedodd y system cyfiawnder troseddol na pheidio oherwydd Covid-19. Yn wir, ni allai. Roedd troseddau'n parhau i gael eu cyflawni a pharhawyd i adrodd arnynt ac ymchwilio iddynt; cafodd carcharorion eu cyhuddo o achosion a bwriwyd ymlaen â'r achosion hynny; arhosai carcharorion yn sefydliadau diogel yr oedolion a'r ieuenctid; ac roedd y rhai oedd dan ofal y gwasanaethau troseddau ieuenctid a phrawf ar y 23ain o Fawrth 2020 (pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud ledled Cymru a Lloegr) yn parhau i fod dan eu gofal.

Llongyfarchwn ymdrechion ac ymrwymiad pendant pawb sy'n gweithio i'r System Cyfiawnder Troseddol. O'n hadroddiadau arolygu unigol ac wrth edrych ar draws y system yn ei chyfanrwydd, gallwn weld yn glir y penderfyniadau cyflym ac effeithiol a wnaed, gan ganolbwyntio ar iechyd a diogelwch y defnyddwyr gwasanaeth; gwaith sydd wedi caniatáu i'r System Cyfiawnder Troseddol barhau i weithredu.

Fodd bynnag, mae'r crynodeb bras hwn yn ysgubo dros nifer fawr y newidiadau - rhai yn fychan, rhai yn fawr - a achoswyd gan Covid-19. O'n sefyllfa ni o edrych ar yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, carchardai a phrawf, gallwn weld fod effaith gronnol y newidiadau hyn yn glir ac yn llwyr.

Hefyd, nid yw'r effaith hon wedi'i theimlo'n llwyr eto. Rhown sylwadau yn yr adroddiad hwn ar drafferthion carcharorion a gedwir dan glo am y rhan fwyaf o'r diwrnod oherwydd Covid-19 ac ar bobl ifainc ar lwythi achos y Tîm Troseddwyr Ifanc y tarfwyd yn ddifrifol ar eu haddysg a'u cyswllt â gwasanaethau troseddau ieuenctid oherwydd y pandemig ac nad oeddynt yn medru cyrchu gwasanaethau digidol. Ceir pryderon gwahanol ym maes yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Fodd bynnag, ni fyddir yn gwybod y gwir effaith gronnol hyd oni bydd yr achosion yr adroddwyd arnynt yn ystod y cyfyngiadau symud wedi mynd trwy'r system gyfan.

Mae gennym bryderon difrifol y bydd yr effaith hon yn andwyol i ddioddefwyr, tystion ac i ddiffynyddion fel ei gilydd. Mae'r gwaith sylweddol sy'n cronni yn Llys y Goron[1] yn enwedig, a'u heffeithiau cynyddol ar holl rannau'r system yn broblemau y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw nawr. Dylid gwneud hyn yn gadarn, gan ganolbwyntio'n llwyr ac yn ddiwyro ar ddatrys y broblem trwy weithredu mewn modd sy'n ystyried y system gyfan. Nid yw cyfnodau hir o aros - p'un ai i ymchwiliadau ddirwyn i ben, chwilio am ddyddiadau llys neu i gynnal

[1] Er nad ydym yn arolygu'r llysoedd, golyga'r ffaith bod eu lle wrth galon y System Cyfiawnder Troseddol na fyddai'r un trosolwg o'r system yn orffenedig heb gyfeirio atynt. Daw canfyddiadau sy'n gysylltiedig ag ymateb y llysoedd i Covid-19 o ffynonellau cyhoeddedig.

gwaith di-dâl a rhaglenni adsefydlu - o fudd i neb a maent yn cyflwyno risg peri niwed i nifer.

Er y gall pob sector sefydlu ei gynlluniau adfer ei hun, oni byddir yn ymdrin â'r ôl-groniadau hyn, byddant yn creu ac yn cynnal oedi ac aneffeithiolrwydd difrifol yn y systemau am flynyddoedd i ddod. Roedd y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a Lloegr eisoes yn rhy dameidiog ac nid oedd ganddi ddigon o adnoddau. Ni fydd yn gallu ymdopi â'r her sylweddol hon heb gryn adnoddau, cynllunio a gwaith ar y cyd.

Mae angen i'r holl asiantaethau bwyso a mesur y sefyllfa, yn unigol a chyda'i gilydd, ac adolygu'r newidiadau y maent wedi'u gwneud a'r hyn y maent wedi'i ddysgu ohonynt. Bydd hyn o gymorth i sicrhau bod modd gwerthuso'n iawn y gwaith arloesi y dymunant ei gadw (neu ymestyn rhagor arno) a bod modd gweithio allan a ffactorio i mewn yr adnoddau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i'w cynnal.

Galwn ar yr holl asiantaethau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau y gall y System Cyfiawnder Troseddol adfer o'r pwysau eithafol a achoswyd gan Covid-19. Ond ni allant wneud hyn ar eu pennau eu hunain. Rhaid i'r llywodraeth roi'r arian, yr amser a'r mynediad i'r arbenigedd fel bod modd i'r system adfer.

Dymunwn gofnodi'n ffurfiol ein diolch i'r holl staff sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol, p'un ai gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y llysoedd, carchardai, gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuenctid, sydd wedi dangos ymrwymiad ac ymroddiad gwych yn ystod y cyfnod hwn o argyfwng cenedlaethol, a dangos ein hedmygedd ohonynt. Cofnodwn hefyd, gyda thristwch, ein cydymdeimlad â theuluoedd a ffrindiau'r rhai yn y system cyfiawnder troseddol a fu farw o Covid-19.

# Yr adroddiad hwn

Rhydd yr adroddiad hwn olwg ar draws y system o sut ymatebodd y System Cyfiawnder Troseddol yn sgil y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf (23 Mawrth hyd 10 Mai 2020) ac ar sut mae'r system wedi ymdopi ers hynny. Mae pob un o'r pedair arolygiaeth cyfiawnder troseddol[2]wedi cynnal arolwg o ymateb ein hasiantaethau i Covid-19. Eglura'r adroddiad hwn ganfyddiadau'r arolygon hyn, yn ogystal â themâu cyffredinol, ac mae'n amlygu'r llwyddiannau, yr heriau a'r problemau y mae'r System Cyfiawnder Troseddol wedi eu hwynebu ac yn parhau i'w hwynebu.

[2]Arolygiaeth Constabiwlaeth a Gwasanaeth Tân ac Achub Ei Mawrhydi: Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi; Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi; Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Caiff y canfyddiadau eu rhannu'n rhai sy'n crynhoi ymatebion yr asiantaethau a'r system i Covid-19 ac yn rhai sy'n rhoi manylion ein hasesiad o effaith barhaus y newidiadau hyn. Amlygwn beryglon ac arfer arloesol drwyddi draw, cyn cloi gydag adran ar y perygl mwyaf y gwelwn yn wynebu'r System Cyfiawnder Troseddol wrth iddi barhau i ymateb i'r pandemig ac adfer ohono.

# 2. Ymateb

# Ymateb cychwynnol: penderfyniadau cyflym, pragmatig i gadw'r system yn gweithredu

**2.1.** Amrywiodd lefel y gwaith cynllunio ar gyfer pandemig ar draws y system, fel gwnaeth yr heriau a wynebai pob corff. Mae'n dyst, fodd bynnag, i'r rhai hynny sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol mai'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y llysoedd, gwasanaethau troseddau ieuenctid, gwasanaethau prawf a charchardai a aeth i'r afael, at ei gilydd, yn yr heriau a welwyd yn y cychwyn cyntaf - gwasanaethau a oedd, i gyd, yn gallu cynnal gwasanaethau hanfodol, ar lefel sylfaenol o leiaf.

**2.2.** Ar draws y system, pan ddechreuwyd teimlo effaith y pandemig, bu i ni weld tystiolaeth o waith gwneud penderfyniadau cyflym a doeth. Adolygodd asiantaethau eu prosesau a'u harferion; bu iddynt adnabod meysydd oedd yn peryglu ac yn bygwth gwaith sylfaenol cynnal eu rhannau nhw o'r System Cyfiawnder Troseddol a gweithredu'n unol â hynny. Yn gefndir i hyn i gyd roedd ansicrwydd eithriadol, lle roedd darogan bod lefelau heintio ymhlith staff yn aml yn uchel a'r newidiadau i'r cyfyngiadau symud yn gyflym ac yn aml heb fawr ddim rhybudd. O'r herwydd, roedd ymateb cychwynnol, cryf yr holl asiantaethau'n creu hyd yn oed fwy o argraff.

| ***Canfyddiadau ar draws y system*** |
| --- |
| Paratodd heddluoedd ganolfan cydgysylltu genedlaethol yn syth a rhoi rhaglen ddysgu genedlaethol, Ymgyrch Talla, ar waith er mwyn casglu a dosbarthu arfer da yn gyflym ledled Cymru a Lloegr. Gwelodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, ar lefel llu, dystiolaeth o waith craffu ac ystyried gwych o ran y newidiadau yr oedd angen eu gwneud i sefydliadau, prosesau a chanllawiau er mwyn helpu pobl i aros yn ddiogel. |
| Roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gallu cymryd mantais lwyr o ddigitaleiddio er mwyn gallu gweithio o bell a pheidio â tharfu'n sylweddol ar wasanaethau. Mae lefel y gwasanaeth a roddwyd trwy gydol yr amser wedi bod yn effeithiol, gyda gallu digidol yn greiddiol i barhad y busnes. Mae hyn yn gyflawniad pwysig. |
| Ymatebodd y gwasanaeth carchardai'n gyflym a phendant i gadw carcharorion yn ddiogel, gan atal y feirws rhag lledaenu a gostwng nifer y marwolaethau gan gyfyngu ar drefn y carchar, rhoi'r carcharorion oedd newydd gyrraedd mewn cwarantin, ynysu'r rhai oedd â symptomau a gwarchod y rhai mwyaf bregus. |

| |
|---|
| Rhoddwyd modelau cyflawni mewn argyfwng yn eu lle ar draws y gwasanaethau prawf, caeodd mwyafrif y swyddfeydd a gweithiodd staff o gartref. Mewn 80-90% o achosion symudod goruchwyliaeth o fod yn wyneb yn wyneb i gyswllt ffôn. Cafwyd gwiriadau carreg y drws ar gyfer achosion risg uwch, gan gynnwys y rhai hynny oedd yn ymwneud â chamdriniaeth ddomestig. Cynhaliwyd apwyntiadau wyneb yn wyneb wrth ryddhau carcharor, ar gyfer troseddwyr TACT ac unigolion digartref. |
| Roedd cysoni Timau Troseddwyr Ifanc gydag awdurdodau lleol a'u gallu i gynllunio gyda phartneriaid ac ochr yn ochr â nhw yn fodd iddynt ymateb yn hyblyg i angen lleol. Roedd pwyslais cyffredin ar gadw swyddfeydd yn agored ar gyfer cymorth brys, gan symud y rhan fwyaf o'r staff i weithio o gartref. Cafwyd cydbwysedd effeithiol rhwng ymateb i anghenion plant a'r peryglon iddynt. |
| Ym Mawrth 2020, caewyd bron i hanner y llysoedd a rhoddwyd y gorau i dreialon gan reithgor er mwyn lleihau i'r eithaf y rhyngweithio cymdeithasol rhwng defnyddwyr y llys. Ailgyflwynwyd treialon gan reithgor ym mis Mai a chânt eu cynnal bellach ym mwy na thri chwarter adeiladau Llys y Goron. Eglurodd Gynllun Adfer y Llysoedd Troseddol (gweler paragraff 4.3) ystod o fesuriadau a luniwyd i helpu'r llysoedd i ailafael yn eu gwaith arferol a lleihau i'r eithaf ar yr oedi. Dechreuodd y llysoedd ddefnyddio mwy ar dechnoleg fideo, gan ganiatáu i fwy o achosion gael eu clywed o bell. Ymhlith blaenoriaethau achosion roedd canolbwyntio ar amddiffyn y cyhoedd. |

# Cyflymu gwaith digidol

**2.3.** Yn nyddiau cynnar y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf, gwnaed nifer o newidiadau i sicrhau y gallai'r system barhau i weithio. Roedd llawer o hyn yn ymwneud â datblygiadau digidol a llawer o wasanaethau'n symud i weithio'n rhithiol. O heddluoedd yn cymryd datganiadau dros y ffôn ac yn derbyn llofnodion electronig ar gyfer datganiadau dioddefwyr, i gyflwyno ymweliadau carchar rhithwir ar gyfer perthnasau, roedd pob un yn gofyn am arloesi yn ogystal ag am arweinyddiaeth effeithiol ar weithluoedd hyblyg ac addasadwy oedd yn cyflawni'r busnes craidd. Bu i ni ganfod y cafodd llawer o raglenni isadeilwaith ei cyflymu er mwyn cael yr amgylchedd digidol yr oedd ei angen i'r System Cyfiawnder Troseddol allu gweithredu yn ystod y cyfyngiadau.

| Canfyddiadau ar draws y system |
|---|
| Cynhaliodd yr heddlu fwy o alwadau ffôn a fideoalwadau i drafod digwyddiadau, cymryd datganiadau a chwblhau adroddiadau ar droseddau, gyda rhai datrysiadau digidol arloesol. Er enghraifft, dechreuodd Heddlu Sussex ddefnyddio cyfweliadau o bell ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig oherwydd nad ydynt yn gadael unrhyw ôl ar ffôn galwr. Mae hwn yn ddatblygiad |

| |
|---|
| cadarnhaol yn ystod y pandemig, gan gadw lefelau gwasanaeth yn eu lle a gostwng cyswllt wyneb-yn wyneb. |
| Roedd cytundeb rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i gynyddu lefel trosglwyddo tystiolaeth yn ddigidol.  Cyn y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf, roedd oddeutu hanner y 43 llu'n defnyddio platfform digidol i rannu tystiolaeth. Erbyn diwedd y cyfnod hwn, roedd 39 llu wedi symud i rannu tystiolaeth ddigidol. |
| Gweithiodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i gyflwyno platfform fideo llysoedd oedd yn fodd i ddefnyddwyr llysoedd fod yn rhith-bresennol a, hefyd, i ddefnyddio mwy ar ddolenni fideo carcharorion. |
| Symudodd staff y gwasanaeth prawf o fod wyneb yn wyneb i gyswllt ffôn ar gyfer y rhan helaethaf o'u hachosion.  Defnyddiodd staff prawf oedd yn y llys ddolenni fideo i roi cyngor ar ddedfrydau. |
| Rhoddwyd techgnoleg i'r gwasanaethau troseddau ieuenctid dechnoleg ar gyfer gweithio o gartref a chynnal a gweithredu paneli y tu allan i'r llys a gorchymynion cyfeirio yn rithwir. |
| Cyflwynwyd cyfleuster fideoalwad diogel ar draws y carchardai fel dewis amgen i ymweliadau cymdeithasol personol, a oedd wedi'u gohirio. Mae hwn yn ddatblygiad i'w groesawu ac yn un y mae'r arolygwyr wedi ei argymell droeon ers 2017. |
| Rhoddwyd i nifer o garchardai nifer fechan o gyfrifiaduron llechen fel bod modd iddynt gysylltu â'u teuluoedd mewn amgylchiadau eithriadol.Defnyddiwyd y rhain yn hyblyg mewn rhai sefydliadau, er enghraifft i ffrydio angladdau'n fyw a'i gwneud yn bosib i garcharorion weld babanod newydd-anedig neu berthnasau oedd yn nesáu at ddiwedd eu hoes. |

## Pwyntiau cadarnhaol gweithio'n ddigidol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth

**2.4.** Cynhaliwyd sawl cyfarfod amlasiantaethol arferol yn rhithiol yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Ymhlith y rhain roedd cynadleddau achos i unigolion dan drefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA), cynadleddau amlasiantaethol ar gyfer asesu risg (MARAC) a chyfarfodydd cynadleddau achos eraill rhwng y gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid. Fe'u defnyddiwyd hefyd gan sefydliadau megis yr heddlu ac awdurdodau lleol ac i hwyluso cyfarfodydd amlasiantaethol i ddiogelu plant .

**2.5.** Wrth i ni arolygu'r heddlu, y gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid, gwelsom arwyddion bod manteision penodol i hyn. Gwelwyd mwy o bobl mewn cyfarfodydd a golygodd mwy o bobl y câi penderfyniadau eu gwneud yn gyflymach ac yn seiliedig ar wybodaeth, cafwyd mwy o gydgysylltu ac, mewn rhai achosion, ymyrrwyd yn gynt i helpu i warchod a diogelu plant.

## Amlygu triniaeth ddigidol anghyfartal

**2.6.** Cyn y pandemig, roedd platfformau, systemau a phrosesau digidol y System Cyfiawnder Troseddol yn amrywiol, anghyson a, chan fwyaf, yn ddigyswllt. Er mynd ati i gyflymu hyn (drwy raid) yn ystod 2020, roedd hyn yn aml yn anghyson. Er enghraifft:

- Roedd staff cyfiawnder ieuenctid yn ei chael yn anodd cyfathrebu â staff cyfatebol mewn sefydliadau troseddwyr ifanc. Roedd hyn yn llesteirio gwaith cefnogi plant oedd yn gadael y ddalfa i adsefydlu yn y gymuned.
- Roedd lluoedd heddlu'n defnyddio platfformau cynadledda lluosog, gan ei gwneud yn anos cyfathrebu dros ffiniau lluoedd mewn rhai achosion.
- Mewn carchardai, mae gwaith cyflwyno'r cyfleuster fideoalwad diogel wedi bod yn rhwystredig o araf. Erbyn yr hydref 2020, roedd rhai carchardai yn parhau i fod heb y cyfleuster hwn. Er bod rhai carcharorion yn cael profiadau cadarnhaol gyda fideoalwadau, yn gyffredinol, ychydig iawn o fideoalwadau yr oedd carcharorion yn eu gwneud ac ym mwyafrif y carchardai yr ymwelodd yr arolygwyr â nhw, ni châi'r gwasanaeth ei ddefnyddio ddigon. Yn ôl arolygon carchardai a gynhaliwyd rhwng misoedd Gorffennaf a Rhagfyr 2020, dywedodd 82% o garcharorion nad oeddynt wedi cael fideoalwad yn y mis diwethaf.

**2.7.** Roedd y defnyddwyr gwasanaeth hefyd dan anfantais mewn rhai achosion oherwydd anghydraddoldeb yn y dechnoleg a ddarparwyd iddynt. Er enghraifft, roedd y gwahaniaeth digidol yn amlwg i blant dan oruchwyliaeth troseddau ieuenctid, gan nad oedd gan i bron hanner ohonynt fynediad rheolaidd a dibynadwy at dechnoleg ddigidol na chyswllt â'r we. Câi hyn effaith negyddol ar eu cyswllt â gwasanaethau troseddau ieuenctid a'u mynediad at addysg a hyfforddiant.

# Risg: gostyngiadau mewn darpariaeth addysg ac adsefydlu.

## Addysg

**2.8.** Mewn carchardai, roedd y pandemig yn cael effaith ar weithio mewn partneriaeth. Roedd asiantaethau partner oedd yn tynnu'n ôl neu'n gweithio o bell yn cael effaith andwyol ar ganlyniadau i garcharorion. Er enghraifft, am sawl mis nid oedd darparwyr addysg yn gallu rhoi addysg wyneb yn wyneb mewn carchardai. Yn ôl arolygon carchardai a gynhaliwyd rhwng misoedd Gorffennaf a Rhagfyr 2020, 21% yn unig o garcharorion a ymatebodd a ddywedodd ei fod yn hawdd cael mynediad at addysg. Yn lle hynny, yn aml rhoddai carchardai addysg a phecynnau gweithgareddau i ymgymryd â nhw yn eu cell. Dywedodd oddeutu 57% o garcharorion a ymatebodd i arolwg Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr un cyfnod eu bod wedi derbyn pecyn gweithgareddau i'w ddefnyddio yn eu cell. Roedd y pecyn yn ddefnyddiol i lai na hanner (48%) o'r carcharorion oedd wedi ei dderbyn.

**2.9.** Yn yr un modd, cafodd yr holl addysg wyneb yn wyneb ei ohirio'n wreiddiol i blant oedd yn y ddalfa, yn dilyn cyfarwyddeb genedlaethol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi, er gwaethaf y ffaith y byddai'r rhan fwyaf o blant oedd yn y ddalfa yn diwallu diffiniad 'bregus' yr Adran Addysg (oedd yn rhoi'r hawl iddynt fynd i'r ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf os oeddynt yn byw yn ygymuned.) Er i addysg wyneb yn wyneb gael ei hailddechrau mewn un Sefydliad Troseddwyr Ifanc y sector preifat ar ôl wythnos, ni chafodd hon ei darparu'n gyson am gyfnod llawer hwy yn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc y sector preifat. Yn lle hynny, cynigiwyd i blant becynnau a gweithgareddau addysg iddynt ymgymryd â nhw yn eu cell.

**2.10.** Y tu allan i'r ddalfa, roedd y ddarpariaeth addysg yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf yn wael ac nid oedd trefniadau'n ystyried anawsterau oedd eisioes i'w gweld wrth geisio cyrchu addysg. Nid oedd diffiniadau'r Adran Addysg o 'bregusrwydd' yn blaenoriaethu'n benodol blant ar lwythi achos y gwasanaeth troseddau ieuenctid. Os nad oeddynt yn cael eu cynnwys yn lleol, nid oedd hawl ganddynt fynd i'r ysgol Roedd cyswllt anaddas â thechnoleg gwbodaeth ac â'r we yn llesteirio'n ddifrifol y dysgu o gartref.

## Adsefydlu

**2.11.** Bellach mae'r gwasanaethau prawf yn cynyddu'r gweithgarwch adsefydlu, a syrthiodd yn isel iawn yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf oherwydd cyfyngiadau ar weithgareddau grŵp wyneb yn wyneb. Ers Mehefin 2020 mae gwaith darparu rhaglenni achrededig wedi cynyddu ond erbyn Hydref 2020 roedd yn dal yn llai na 60% yr hyn oedd cyn Covid. Mae

dedfrydau gormod o unigolion yn dirwyn i ben cyn iddynt ddatblygu'r sgiliau i symud i ffwrdd oddi wrth rhagor o droseddu. Gallai hyn gael effaith andwyol ar enw da dedfrydu cymunedol. Rhaid i farnwyr, ynadon a'r cyhoedd fod â hyder mewn dedfrydu a rhaid iddynt gael eu sicrhau y bydd unigolion yn cwblhau gweithgaredd adsefydlu priodol.

## Gwaethygir y risg gan gyfyngiadau ar wasanaethau cefnogi ehangach mewn rhai ardaloedd.

**2.12.** Croesawodd llawer o unigolion dan oruchwyliaeth prawf y symud o gyswllt wyneb yn wyneb i gyswllt ffôn. Fodd bynnag, roedd yr unigolion mwyaf bregus oedd ag anghenion cymhleth yn cael trafferth. Yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf, nid oedd modd i'r rhai â chyflyrau iechyd meddwl a phroblemau cyffuriau ac alcohol gyrchu cymaint o wasanaethau cefnogi. Nid oedd cyswllt o bell â swyddogion prawf yn ddigon i fodloni anghenion yr unigolion hyn.

**2.13.** Roedd y ffaith nad oedd cwmnïau adsefydlu cymunedol oedd yn gweithio o garchardai yn cael cyswllt wyneb yn wyneb ac yn gweithio o bell yn aml yn arwain at ddealltwriaeth wael o anghenion carcharor pan gâi ei ryddhau a chynllun adsefydlu nad oedd yn ystyrlon nac yn effeithiol.

**2.14.** Yn fwy cadarnhaol, gwellhaodd canlyniadau tai uniongyrchol i ddefnyddwyr y gwasanaeth prawf yn ystod y pandemig dan gynllun 'Everyone In' y llywodraeth i atal digartrefedd a thrwy'r Timau Atal Digartrefedd rhanbarthol a sefydlwyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Fodd bynnag, canfu arolygwyr Carchardai EM fod rhai carcharorion yn dal i gael eu rhyddhau heb le i fynd iddo ac, yn aml, rhywbeth dros dro oedd llety, yn hytrach na rhywbeth tymor hir. Er ein bod yn croesawu ymestyn cefnogaeth y llywodraeth i Ionawr 2021, nid oes eglurhad o'r ddarpariaeth tai tymor hir sy'n hanfodol i adsefydlu a gostwng aildroseddu.

**2.15.** I nifer o blant sy'n wybyddus i'r gwasanaethau troseddau ieuenctid, daeth problemau lles yn fwy dwys yn ystod y pandemig ac, yn aml, gwaethygwyd anawsterau a oedd ganddynt eisoes oherwydd iddynt gael eu hynysu oddi wrth eu ffrindiau a newidiadau i'r rhwydweithiau cefnogi arferol. Roeddem yn peri pryder i ni glywed am gynnydd mewn achosion o bobl ifanc oedd yn dreisgar tuag at eu rhieni mewn cartrefi lle roedd plant yn gorfod mynd trwy'r cyfyngiadau symud gyda nhw. Amlygai hyn nad oedd darpariaeth i ddioddefwyr y math hwn o gamdriniaeth ymhlith aelodau o'r un teulu.

**2.16.** Mae gwasanaethau troseddau ieuenctid yn gymharol dameidiog; mae yna fwy na 150 o wasanaethau wedi eu cysoni ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i arolygwyr gael golwg clir ar sut mae'r holl wasanaethau'n

ymdopi gyda'r pandemig a sicrhau bod pob plentyn yn derbyn cymorth o ansawdd uchel yn hytrach na bod yn rhan o 'loteri côd post'. Bydd Gwasanaeth Prawf EM yn gwylio'n agos i weld a yw effaith y pandemig ar gyllidebau cynghorau'n cael effaith ar wasanaethau troseddau ieuenctid.

# 3. Effaith

# Llesiant staff

**3.1.** Roedd pob asiantaeth yn glir fod iechyd, llesiant a diogelwch staff yn hollbwysig. Roedd hyn yn anos i'w reoli i'r heddlu a'r carchardai oherwydd bod yr angen i ddarparu gwasanaethau rheng flaen ar raddfa fawr, heb allu gweithio'n rhithwir, yn golygu bod yn rhaid i rai staff barhau i fynd i'r gwaith yn bersonol (mewn cyfnod pan nad oedd effaith dal y feirws yn wybyddus iawn). Canfu'r arolygwyr:

- Yr addasodd yr heddlu'n dda i'r newid mewn galw a'r rheidrwydd i newid arferion gwaith, er bod anawsterau yn y dechrau o ran gwybod beth oedd y cyfarpar diogelu personol cywir a'u canfod.

- Yn ogystal â pharhad gwasanaeth, prif egwyddor Gwasanaeth Erlyn y Goron oedd llesiant staff. Dywedodd nifer o staff bod gwerthoedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi bod yn glir drwyddi draw a bod yr ymateb i'r argyfwng wedi dangos yn glir ymrwymiad y gwasanaeth i lesiant y staff.

- Mae'r rhan fwyaf o staff y gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth eu harweinyddion a'u rheolwyr. Roedd rhai sefydliadau wedi sicrhau bod cronfeydd caledi ar gael. Yn ychwanegol, roedd lefel cefnogaeth cyfoedion, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, yn rhagorol.

**3.2.** Ar draws y system, fodd bynnag, roedd hwn yn brofiad anodd ar brydiau, hyd yn oed i'r rhai a allai weithio gartref. Nid oedd gweithio gartref yn gweddu i bawb; roedd rhai pobl yn cael trafferth cysoni addysgu gartref ac ymrwymiadau gofal â galwadau eu gwaith.

# Profiad defnyddwyr gwasanaeth[3]

**3.3.** Fel y nodwyd uchod, parhaodd y system cyfiawnder troseddol i weithredu, oherwydd bod asiantaethau'n ymateb yn gyflym i gadw'r hanfodion yn eu lle. Fodd bynnag, mae'r crynodeb bras hwn yn cuddio'r lliaws newidiadau bach a mawr a wnaed ym mhob cam o'r system. Ni wyddys beth yw effaith tymor hir y rhain, dylid ei dadansoddi'n ofalus yn y dyfodol.

**3.4.** Yn yr adran hon, eglurwn yr hyn a wyddom am yr effaith gronnol ar y defnyddiwr gwasanaeth.

[3]Term torfol yw defnyddwyr gwasanaeth i gynnwys pobl a ddaw i gyswllt â'r System Cyfiawnder Troseddol nad ydynt yn gweithio o fewn y system, er enghraifft dioddefwyr, diffynyddion, tystion a charcharorion.

**3.5.** wrth roi gwybod am drosedd yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf, byddai person arferol yn:

- fwy tebygol o roi gwybod amdani ar-lein
- fwy tebygol o beidio â chael ymweliad gan yr heddlu
- fwy tebygol o gael galwad ffôn neu fideoalwad i drafod y digwyddiad, cymryd datganiad a chwblhau adroddiadau trosedd
- fwy tebygol o gael datrys yr achos trwy benderfyniad a wneir y tu allan i'r llys
- fwy tebygol o weld y sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei ryddhau dan ymchwiliad yn hytrach nag ar fechnïaeth.
- yn llai tebygol o gael blaenoriaethu ei achos ar gyfer penderfyniad cyhuddo gan Wasanaeth Erlyn y Goron, oni bai mai un Covid-19/y ddalfa ydoedd[4]
- fwy tebygol o orfod disgwyl yn hir am ddyddiad llys.

**3.6.** Yn nodweddiadol, pan fo yn y carchar ac wrth iddo adael yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf, byddai carcharor yn profi'r isod:

- Yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y pandemig, dim ond agweddau mwyaf sylfaenol bywyd carchar a gâi eu cynnal: darparu bwyd, meddyginiaeth, cawodydd ac ymarfer dyddiol. Gwnaed hyn, yn gyffredinol, trwy ddatgloi drysau celloedd carcharorion am gyfnod byr pob diwrnod.[5]Câi rhai carcharorion eu cadw dan amgychiadau a olygai, i bob pwrpas, eu bod ar eu pennau eu hunain, a oedd weithiau am gyfnod hir a/neu amhenodol.
- Canslwyd rhaglenni ymddygiad troseddol, gan atal carcharorion rhag symud ymlaen gyda'u dedfryd. O Orffennaf, canfu arolygwyr restri aros sylweddol am rai rhaglenni mewn rhai sefydliadau. O ddiwedd mis Awst ymlaen, câi rhaglenni ymddygiad troseddol eu hatal yn y rhan fwyaf o garchardai ond, yn ddiweddar, roedd rhai sefydliadau yr oedd arolygwyr wedi ymweld â nhw wedi dechrau datblygu ymyraethau, rhywbeth a gâi groeso.
- Rhoddwyd y gorau'n gyfan gwbl i'r rhan fwyaf o weithdai a hyfforddiant yn y cychwyn cyntaf ac ni ailgychwynwyd llawer tan yr hydref, a hynny'n rhan-amser yn unig. Mewn arolygon carchardai a gynhaliwyd o Orffennaf i Ragfyr

[4]Cytunwyd ar brotocol cyhuddo interim newydd yn nodi tri math o achosion a'r flaenoriaeth i'w rhoi iddynt: blaenoriaeth uniongyrchol - carchariad a'r holl achosion sy'n gysylltiedig â Covid-19: blaenoriaeth uchel - achosion o fechnïaeth heb garchariad, ac achosion eraill - rhyddhawyd dan ymchwiliad neu nid oedd angen arestio.
[5]Yn ein harolygon rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2020, dywedodd 78% o garcharorion eu bod yn cael llai na dwy awr allan o'u cell, gan cynnwys 42% a ddywedodd eu bod yn cael llai nag awr.

2020, 11% yn unig o garcharorion a ymatebodd a ddywedodd ei bod yn hawdd cael hyfforddiant galwedigaethol neu sgiliau.

- Cafodd y rhan fwyaf o garcharorion oedd i'w rhyddhau ar drwydded dros dro eu hatal rhag gwneud hynny, fel oedd yn wir ar gyfer trosglwyddiadau cynyddol rhwng carchardai.

- Cyfyngedig oedd yr adsefydlu oedd ar gael yn y gymuned. Câi gwaith amddiffyn y cyhoedd ei flaenoriaethu, gyda llai yn cael ei wneud i roi sylw i achosion sylfaenol troseddu. Syrthiodd y rhaglenni achrededig a ddarparwyd i dan 10% o'r lefelau arferol.

## Risg: Mae angen gwerthuso'n iawn newidiadau yn sgil Covid-19 a (lle bo'n briodol) sicrhau bod yna ddigon o adnoddau

**3.7.** Oherwydd y pandemig bu'n rhaid i'r System Cyfiawnder Troseddol newid pethau'n gyflym. Roedd hyn yn gadarnhaolRoedd cymaint o newidiadau gwerthfawr mewn amgylchiadau mor eithriadol wedi creu argraff arnom. Fodd bynnag, mae angen gwerthuso'n iawn yr hyn a wnaed cyn iddo ddod yn arfer cyffredin.

**3.8.** Mae hyn yn arbennig o wir am rai o'r newididau digidol a gyflwynwyd. Yn y tymor hir, ni wyddom sut effaith y bydd gweithio o bell neu'n rithwir wedi ei chael ar ganlyniadau megis aildroseddu, na beth fyddai'r effaith wedi bod ar y system cyfiawnder a brofodd troseddwyr a dioddefwyr. Mae angen gwneud llawer mwy o waith ar gyfer y newidiadau hynny a ystyrir yn fuddiol i sicrhau y cyflwynir y gwaith llywodraethu, canfod adnoddau a hyfforddiant fel eu bod yn dod yn arfer cyffredin ac eang.

**Astudiaeth achos: llysoedd rhithwir**

Mae Covid-19 wedi arwain at gyflwyno neu ymestyn llysoedd rhithwir i garcharorion iddynt gael eu gwrandawiad remánd o orsaf yr heddlu. Oherwydd bod llysoedd yn cau, gweithredodd lluoedd yn gyflym i sefydlu neu ymestyn eu trefniadau llys rhithwir. Roedd gan y rhan fwyaf drefniadau gweithio i wneud hyn o gyfnod cynnar y pandemig.

Fodd bynnag, mae nifer o luoedd yn mynd i gostau mawr er mwyn darparu staff ychwanegol i gynnal y trefniadau llys rhithwir hyn. Mae eu defnyddio'n golygu bod carcharorion yn treulio mwy o amser yn y ddalfa yn disgwyl am eu gwrandawiadau. Rhydd hyn alwadau a chyfrifoldebau ychwanegol ar luoedd

wrth iddynt barhau i reoli risg pob carcharor a chwrdd â'u hanghenion gofal a lles parhaus yn ystod eu cyfnod estynedig dan glo.

Mae gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i ddatrys y problemau hyn yn mynd yn fwy a mwy o straen; nid yw hyn yn gynaliadwy ac mae rhai lluoedd eisoes yn cynllunio'n fuan i dynnu'n ôl o'r trefniadau rhithwir cyfredol.

Mae angen datblygu model (sy'n ystyried manteision ac anfanteision y system llys rithwir) cyn gynted â phosib.

**Astudiaeth achos: Platfform fideo'r Cwmwl (CVP)**

Ddiwedd Ebrill 2020, rhoddodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi blatfform fideo'r cwmwl i ddefnyddwyr y llys, gyda'r fantais o'r profiad cynharach o wrandawiadau rithwir yn y llysoedd. Mae platfform fideo'r cwmwl wedi ei gysylltu'n ddiogel â'r rhwydwaith fideo cyfiawnder presennol sy'n cysylltu gorsafoedd yr heddlu a charchardai â llysoedd.  Mae modd cael ato trwy unrhyw ddyfais sydd â'r we a chamera a meicroffon. Erbyn y 10fed o Fai, roedd y platfform yn fyw mewn 34 o lysoedd yr ynadon a 12 canolfan Llys y Goron ac roedd mwy na 2,000 o wrandawiadau wedi'u cynnal yn llysoedd yr ynadon a Llys y Goron wrth ddefnyddio'r platfform hwn. Roedd hyn yn fodd i erlynwyr gael eu symud yn effeithlon ac, mewn rhai amgychiadau, golygai bod adfocadau'n gallu mynd i sawl llys gan ddod â buddion real o ran parhau i gynrychioli.

Fodd bynnag, ers hynny, mae'r defnydd a wneir o Blatfform Fideo'r Cwmwl wedi gostwng. Erbyn Medi 2020, roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwneud ceisiadau Platfform Fideo'r Cwmwl mewn oddeutu 15% o achosion yn unig. Yn y rhan fwyaf o leoedd, ymddengys bod bellach ffafriaeth farnwriaethol glir dros gael unigolyn i ddod i'r llys.  Gan mai swyddogaeth farnwriaethol leol yw rhestru, nid oes protocol cenedlaethol sefydledig sydd â chyfres o egwyddorion i gymryd rhan o bell. O gofio'r problemau difrifol yn y rhestr, sy'n tyfu ac yn ôl-gronni, mae hwn yn gyfle coll.

**3.9.** Mae angen, hefyd, ddadansoddi ymhellach effaith newidiadau eraill a gafwyd yn sgil Covid-19 ar ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, dylai'r gwaith hwn bennu a ddylai gwasanaethau prawf gyflwyno elfen o oruchwyliaeth o bell i'w model gweithredu arferol, ochr yn ochr â chyswllt wyneb yn wyneb ag unigolion. Awgrymwn hefyd bod mwy'n cael ei wneud i werthuso'r rhesymau pam nad yw carcharorion yn gwneud digon o ddefnydd o fideoalwadau diogel a rhoi sylw i hyn.

**3.10.** Croesawn y camau cychwynnol a gymerodd asiantaethau'n gyflym i ymateb i'r pandemig. Gwerthfawrogwn yn llwyr bod y System Cyfiawnder Troseddol yn dal i ymdopi â Covid-19. Fodd bynnag, rydym yn annog pob asiantaeth, ar ei phen ei hun a chyda'i gilydd, i gynllunio nawr sut orau i fabwysiadu, addasu neu gyflymu'r newidiadau buddiol, sy'n angenrheidiol oherwydd y pandemig.

**3.11.** Yn arbennig felly, ers i'r cyfyngiadau symud cychwynnol ddod i ben, mae'r rhan fwyaf o garchariorion yn parhau i fod dan gyfundrefn hynod gyfyngol. Mae hyn wedi parhau'n ddi-dor ers sawl mis. Mae wedi cael effaith andwyol ddifrifolar eu lles corfforol, emosiynol a seicolegol, ac ar eu gobeithion am adsefydliad effeithiol.

**3.12.** Cododd ymweliadau craffu byr gan Arolygwr Carchardai Ei Mawrhydi o fisoedd Ebrill i Orffennaf 2020 bryderon am effeithiau tymor canolig a hir posibl ynysu ac nad oedd yna gyswllt ystyrlon ag unigolion eraill, gan gynnwys colli ymweliadau cymdeithasol. Dywedodd carcharorion wrth arolygon bod methu caell allan i ofod agored, ymarfer a chael cyswllt ag uniogolion yn cael effaith andwyol ar eu lles ac yn arwain at boen meddwl, dirywiad yn eu hiechyd corfforol ac at fwy o broblemau iechyd meddwl.

**3.13.** Mae gwaith thematig a gynhaliwyd yn Hydref a Thachwedd 2020 gan Garchardai Ei Mawrhydi wedi datgelu sut mae byw dan gyfundrefnau cyfyngedig am amser hir wedi cael effaith negyddol ar les carcharor.

# 4. Risg fawr: ôl-groniadau yn y system

**4.1.** Er ein bod wedi ein calonogi bod y system cyfiawnder troseddol wedi ymdopi'n rhesymol dda â newidiadau uniongyrchol y pandemig, nifer sylweddol yr achosion sy'n cronni yw'r bygythiad mwyaf i weithrediad cywir y system cyfiawnder troseddol. Ymhlith yr hyn a welwyd, mae:

- Er i niferoedd a gofnodwyd y rhan fwyaf o fathau o droseddau syrthio ym mis Mawrth 2020, bu iddynt gynyddu unwaith eto dros yr haf i'r lefelau cyn y pandemig.
- Parhau'n gyson drwy gydol yr amser wnaeth nifer y rhai a âi i'r bloc celloedd, wrth i'r swyddogion glirio hen achosion. Golygai hyn nad oedd nifer yr achosion oedd yn dod i mewn i'r system yn gostwng.
- Cliriodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ôl-groniadau'n ymwneud â chyhuddo yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf.
- Oherwydd cau llysoedd o ddiwedd mis Mawrth i ganol mis Mai 2020 yn y rhan fwyaf o lysoedd ac am gyfnod hwy mewn llysoedd eraill, bu cynnydd sylweddol mewn ôl-groniadau.
- Yn Ebrill 2020, cyflwynwyd dau gynllun i ryddhau carcharorion dros dro er mwyn gostwng y nifer oedd yn y carchardai. Ychydig iawn o effaith gafodd y cynlluniau gan mai 316 o garcharorion yn unig a ryddhawyd, er gwaethaf i lawer mwy o garcharorion gael eu hasesu a'u cael yn addas a chael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i gael eu hystyried. Bu oedi gyda'r cynlluniau yn Awst 2020.
- Er hynny, rhwng misoedd Mawrth a Medi 2020, syrthiodd y nifer oedd yn y carchardai 4.5% (82,990 i 79,235) yn bennaf oherwydd nad oedd cymaint o waith yn y llysoedd ac, felly, roedd llai'n cael eu derbyn i'r carchardai.
- Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd y nifer oedd yn y ddalfa 22% (o 10,043 i 12,274) ac, ar hyn o bryd, hwn yw'r ffigur blynyddol uchaf mewn chwe blynedd, sef 15.5% o gyfanswm y nifer yn y carchardai.
- Mae diwygiadau deddfwriaethol wedi ymestyn cyfyngiadau'r amser yn y ddalfa 56 diwrnod i rai unigolion sy'n aros eu prawf.[6] Ni fydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel mater o drefn, yn cyhoeddi data ar gyfartaledd cyfnod a dreulir yn aros prawf.
- Yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf, caeodd pum eiddo a gymeradwyd gan y gwasanaeth prawf oherwydd y pandemig. Caewyd

[6] Daeth Rheoliadau Erlyn Troseddau (Terfynau Amser yn y Ddalfa)(Coronafeirws)(Diwygiad) 2020 i rym 28 Medi 2020.

pedwar arall am resymau eraill. Wedi ei gyfuno â'r symudiad i ystafelloedd un person, parodd hyn ostyngiad o 21.3% mewn capasiti (o 2,258 i 1,805 o welyau).

- Parodd i reoliadau pellhau cymdeithasol ostwng capasiti prawf i roi i garcharorion raglenni achrededig a gofynion gwaith di-dâl: ers diwedd Mawrth 2020, mae ôl-groniadau sylweddol yn y ddau wedi datblygu.

## Ôl-groniadau'r llysoedd

**4.2.** Hyd at 13 Rhagfyr 2020, roedd ôl-groniadau'r llysoedd fel a ganlyn:

- Cyfanswm llwythi gwaith ôl-gyhuddo byw Gwasanaeth Erlyn y Goron: 67% yn uwch na'r gwaelodlin cyn Covid.Mae hyn yn cyfateb i 67,679 o achosion ychwanegol, gan fynd â'r cyfanswm i 169,419.
- Llwyth achos byw llysoedd ynadon: 83% yn uwch.O'r rhain, amcangyfrir mai treialon oedd 19,500, sy'n cyfateb i gynnydd o 57% er Chwefror 2020.
- Llwyth achos byw Llysoedd y Goron: 44% yn uwch.O'r rhain, amcangyfrir mai treialon oedd 27,700, sy'n cyfateb i gynnydd o 65% er Chwefror 2020.

**4.3.** Yng Nghynllun Adfer y Llysoedd Troseddol[7]- a sefydlwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi - mae ystod o fesurau wedi eu cynllunio i helpu'r llysoedd ddod yn ôl i drefn arferol cyn gynted â phosib, a lleihau i'r eithaf ar unrhyw oedi wrth gyflawni cyfiawnder. Mae nifer o fesurau yn y cynllun:

- cyflogi 1,600 o staff y llys i gynnal mesurau adfer.
- Gwneud y mwyaf o'r defnydd effeithlon a wneir o'r stad ffisegol presennol, er enghraifft trwy gyflwyno sgriniau plecsiglas i wahanu aelodau o'r rheithgor, fel bod modd defnyddio mwy o ystafelloedd yn y llysoedd yn ddiogel
- cynyddu capasiti trwy 'Llysoedd Eos' - mae deg wedi cael eu traed danynt yn y lle cyntaf, a'r cynllun yw agor wyth arall yn fuan.
- caniatáu i fwy o achosion gael eu clywed o bell trwy ddefnyddio technoleg fideo, lle bo'n briodol.
- gweithredu 'oriau gweithredu Covid' newydd - cynyddu nifer yr oriau y ceir defnyddio adeiladau llysoedd ar gyfer treialon y tu allan i'r amseroedd

---

7 assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/915493/HMCTS401_recovery_overview_for_crime_WEB.pdf

safonol yn ystod yr wythnos, sef 10am-4pm. Ceisia'r mesur a gyfyngir gan amser wneud y mwyaf o'r defnydd effeithlon a wneir o stad Gwasanaeth Llysoedd a Tribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, wrth sicrhau nad oes gofyn i neb fod yn y llys am yn hwy nag sydd raid.

**4.4.** At hyn, mae buddsoddiad £142 miliwn pwysig ar draws systemau'r llysoedd wedi ei gyhoeddi er mwyn cyflymu gwelliannau technegol a moderneiddio ystafelloedd llysoedd.

**4.5.** Mae effaith yr ôl-groniadau cynyddol yn y llysoedd yn bryder real i'r holl asiantaethau.

| |
|---|
| Canfu arolygwyr Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi sawl enghraifft o achosion difrifol oedd wedi eu canslo ar fyr rybudd, er i'r troseddau gael eu cyflawni amser maith yn ôl. Mynegodd swyddogion yr heddlu a staff ar bob lefel bryderon sylweddol ynghylch yr achosion sy'n ôl-gronni a'u heffaith ar ddioddefwyr a thystion. Ar wahân i gael effaith ar hyder dioddefwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol, mae'n debygol y bydd rhai dioddefwyr yn dod yn amharod i gefnogi erlyniadau oherwydd yr oedi. |
| Dywedodd Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth arolygwyr bod llwythi achos yn dechrau cael eu cwblhau a'u clirio ar raddfa fwy nag y'u derbynnir, wedi cyfnod o gynnydd mewn achosion yn llysoedd yr ynadon hyd at ddechrau Awst 2020. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n waeth yn Llys y Goron. Golygodd pellhau cymdeithasol ei bod wedi bod yn anos cynnal treialon gan reithgor. Yn unol â'i gynlluniau, cyrhaeddodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ei darged i agor 250 o ystafelloedd addas i wrando ar dreialon gan reithgor erbyn diwedd Hydref 2020. Gwnaed llawer o hyn yn bosib trwy gyflwyno mesurau diogelwch newydd ar draws y stad. Mae hyn yn cynnwys cyflogi glanhawyr ychwanegol a gosod sgriniau plecsiglas sy'n caniatáu i reithgorion eistedd wrth ymyl ei gilydd yn ddiogel. Mae'r rhwystrau lled dryloyw'n cael eu gosod mewn 160 o ystafelloedd llys ac 80 o ystafelloedd trafod rheithgorion ledled Cymru a Lloegr. |
| Mae nifer yr achosion sy'n ôl-gronni yn Llys y Goron yn parhau i dyfu hyd yn oed gyda'r mesurau yng Nghynllun Adfer y Llysoedd Troseddol. Gwnaed sylw yn Newyddiadur y Gyfraith (9 Hydref 2020) nad yw'n anarferol gweld treialon yn cael eu rhestru yn 2022 ac mae'r ôl-gronni'n parhau. 14 Rhagfyr 2020, rhyddhaodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ddata'n dangos bod achosion Llysoedd y Goron sy'n ôl-gronni wedi cynyddu i fwy na 53,000. Dywedodd yyr Arglwydd Ganghellor wrth y Pwyllgor Dethol Cyfiawnder bod achosion yn cael eu rhestru yn 2022 ond ei fod yn gobeithio y byddai cyllid |

| |
|---|
| ychwanegol yn caniatáu i swyddogion rhestru ddod â rhywfaint o dreialon ymlaen. |
| Mae'n anochel y bydd mwy o amser a dreulir ar brawf yn ychwanegu at boen meddwl a rhwystredigaeth carcharorion unigol. Mae'n bosib y gall carcharorion ar brawf, y mae eu nifer yn cynyddu ac yn mynd yn fwyfwy rhwystredig, gael effaith andwyol ddifrifol ar sefydlogrwydd carchardai derbyn. |
| Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol dan bwysau wrth i wrandawiadau llys ailddechrau - o ran rhoi cyngor ar ddedfrydu ac ymdrin â chynydd yn nifer y bobl sy'n derbyn dedfrydau cymunedol. Bydd ymgyrch y llywodraeth i recriwtio 20,000 mwy o swyddogion yr heddlu'n arwain at nifer fawr o bobl yn dod gerbron y llysoedd troseddol ac yn cynyddu llwythi gwaith ymhellach. Bydd hon yn garreg filltir o flwyddyn i wasanaethau prawf, gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cymryddrosodd yr holl waith rheoli troseddwyr ym Mehefin 2021. Mae'r amserlen ar gyfer y cyfnod pontio wastad wedi bod yn un uchelgeisiol a bydd y pandemig yn achosi straen ychwanegol. |
| Bydd rhai gwasanaethau troseddau ieuenctid hefyd yn gweld cynnydd sylweddol yn eu llwythi gwaith wrth i achosion ddechrau symud yn eu blaenau trwy'r llys. Rhwng Ebrill a Mehefin 2020, roedd cynnydd o 55% yn genedlaethol yn yr achosion ieuenctid byw, o gymharu â'r un cyfnod yn 2019.[8] |

**4.6.** Mae'r arolygiaethau'n croesawu'r cyllid ychwanegol a roddwyd i'r System Cyfiawnder Troseddol yn rhan o'r adolygiad gwariant diweddar: y cyllid diweddar am 20,000 o swyddogion yr heddlu ychwanegol a 400 o erlynwyr a'r cyllid ychwanegol i'r gwasanaeth llys. Fodd bynnag, mae posib i hyn ychwanegu at yr ôl-gronni yn y llysoedd wrth i fwy o achosion ddod i mewn i'r system.

**4.7.** Mae tystiolaeth ein hymchwiliad yn sefydlu bod straen sylweddol yn parhau ar y System Cyfiawnder Troseddol. Mynega swyddogion yr heddlu bryder y bydd dioddefwyr yn dod yn llai parod i gefnogi achosion, oherwydd yr oedi sylweddol hwn. O'n gwaith arall, ceir tystiolaeth bod oedi'n aml yn gyrru graddfeydd edifarhau dioddefwyr. Mewn unedau Llys y Goron mewn rhai ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron, mae achosion fesul erlynydd wedi cynyddu dros 90% Rhestrir achosion a fydd, yn amlwg, ddim yn cael gwrandawiad oherwydd nad oes amser llys. Er hyn, rhaid paratoi pob achos a rhaid rhybuddio dioddefwyr a thystion, rhag ofn y byddir yn bwrw ymlaen ag o. Digwydd hyn i gyd wrth i nifer y carcharorion ar brawf godi oherwydd bod cyfyngiadau amser yn y ddalfa'n cynyddu i ymdopi â'r oedi.

8 Data dros dro ar lwyth achosion byw llysoedd ieuenctid; Gwasanaeth Erlyn y Goron; 2020 (heb eu cyhoeddi).

**4.8.** Yr ôl-groniadau difrifol iawn hyn yn y llys na welwyd mo'i tebyg yw'r perygl mwyaf i gyfiawnder troseddol ac fel y gwelir yn yr adran hon, mae'r effeithiau cynyddol a welir ar draws yr holl asiantaethau'n ddyfn. Bydd asiantaethau - a'r unigolion ymroddedig sy'n gweithio ynddynt - yn gwneud popeth y gallant i ymdopi, ond mae gennym bryderon difrifol y bydd hyn ar draul cost fawr i unigolion a sefydliadau. Mae'r broblem yn un system gyfan nid un y llys yn unig. Cyfrifoldeb y llywodraeth yw ymateb fel system gyfan.

# 5. Sylwadau i gloi

**5.1.** Mae'n dyst go iawn i'r system cyfiawnder troseddol y cadwyd unrhyw wasanaeth, a hynny er gwaethaf y pandemig. Er mai ychydig iawn oedd yn wybyddus am y feirws a sut y byddai'n ymddwyn, parhaodd llawer o bobl yn y System Cyfiawnder Troseddol ddarparu gwasanaethau gan beri risg iddyn nhw eu hunain ac i unigolion. Mae hyn yn rhywbeth na ddylid ei anghofio.

**5.2.** Ond ni fydd yr ymrwymiad hwn yn unig yn ddigon i gynnal y System Cyfiawnder Troseddol wrth iddo geisio adfer yn sgil Covid-19. Ni ddylem, ychwaith, ddisgwyl iddo fod: byddai hyn yn rhoi baich amhosibl ar y rhai hynny sy'n gweithio ar reng flaen cyfiawnder.

**5.3.** Roedd y system eisoes yn wynebu methiannau sylweddol. Mae'r pandemig wedi dwysáu'r rhain. I'r gwasanaethau heddlu, carchardai, prawf a chyfiawnder ieuentid, roedd galw un ai'n gyson, neu mae'n ôl bellach ar y lefelau cyn pandemig - ond gyda chyfyngiadau Covid yn parhau i gael effaith ar eu gallu i ymateb.  Er enghraifft, mae blociau celloedd yr heddlu'n parhau i fethu gweithio ar eu llawn gapasiti oherwydd bod angen glanhau a chadw pellter ychwanegol. Trwy ei allu digidol datblygedig, ar ddechrau'r pandemig, roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi gallu cadw gwasanaethau a symud adnoddau i fynd i'r afael ag achosion oedd yn ôl-gronni. Bellach, mae'n cael trafferth ymdrin ag ôl-groniadau. Roedd pob sector eisoes yn dameidiog ac â phrinder sylweddol o adnoddau. Nawr, mae angen iddynt ddal i fyny ag unrhyw ôl-groniadau a gafwyd yn ystod y pandemig, wrth hefyd ymateb i ofynion newydd - a gwneud hynny mewn ffordd sy'n ymateb i gyfyngiadau a rheoliadau Covid sy'n newid. Heb adnoddau, amser a chefnogaeth, mae perygl y bydd hon yn dasg amhosibl.

**5.4.** Fodd bynnag, y sefyllfa yn y llysoedd yw ein pryder mwyaf o hyd, a'r effaith yn sgil hyn ar ein holl sectorau yr ymchwiliwyd iddynt. Mae'n hanfodol cymryd camau brys a sylweddol i ostwng yr hyn oedd eisoes yn achosion yr oedd eu hôl-groniad yn affwysol a gwneud i ffwrdd â nhw a sicrhau bod llysoedd yn saff a diogel i bawb sy'n mynd iddynt ac yn gweithio ynddynt.  Heb hyn, mae'r goblygiadau i ddioddefwyr, tystion, diffynyddion ac i garcharorion yn ddifrifol.

**5.5.** Yn brif arolygwyr annibynnol, mae pob un ohonom wedi gwneud sylw yn y gorffennol ar beryglon bod lefel prinder yr adnoddau yn y System Cyfiawnder Troseddol yn affwysol a systemig. Yn grŵp o brif arolygwyr, rydym nawr o'r farn bod y risgiau hyn bellach yn gritigol oherwydd Covid-19.

# Atodiad A
# Geirfa

### Llys y Goron

Llysoedd sy'n eistedd yng Nghymru a Lloegr.Yn ymdrin ag achosion troseddol difrifol, er enghraifft llofruddio, treisio a lladrata; hefyd yn ymdrin ag apeliadau yn erbyn euogfarn neu ddedfryd llys ynadon ac achosion a drosglwyddwyd o lys yr ynadon ar gyfer dwyn i brawf neu ddedfrydu.

### Gwasanaeth Erlyn y Goron

Y prif awdurdod erlyn yng Nghymru a Lloegr, wedi'i sefydlu gan adran 1 Deddf Erlyn Troseddau 1985.Yn gyfrifol am erlyn achosion troseddol yr ymchwilia'r heddlu a chyrff ymchwilio eraill iddynt, ac yn arbennig felly, am benderfynu cyhuddiadau ynghylch achosion ar gyfer erlyn, adolygu erlyniadau i sicrhau y caiff y diffynyddion cywir eu herlyn ar y cyhuddiadau cywir gerbron y llys cywir, paratoi achosion ar gyfer y llys a chyflwyno achosion mewn llysoedd ynadon, Llys y Goron a'r llys uwch.

### Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

Yr asiantaeth weithredol sy'n gyfrifol am weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd troseddol, sifil a theulu yng Nghymru a Lloegr.Noddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

### Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

Yr unig asiantaeth sy'n gyfrifol am wasanaethau carchardai a phrawf ar draws Cymru a Lloegr.Fe'i sefydlwyd 1 Ebrill 2017.

### Tim atal digartrefedd

Un o saith tim atal digartrefedd rhanbarthol a sefydlwyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ganfod llety i unigolion a ryddheir o'r carchar.

### Trefniadau amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA)

Peirianwaith trwy'r hyn y mae asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol (yr heddlu, carchardai ac ymddiriedolaethau prawf) a chyrff eraill sy'n ymdrin â throseddwyr yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i amddiffyn y cyhoedd rhag niwed difrifol trwy reoli troseddwyr rhyw a threisgar.Fe'i sefydlwyd ym mhob un o'r 42 ardal cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr trwy adrannau 325 i 327B Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

### Cynhadledd amlasiantaeth asesu risg (MARAC)

Cyfarfod o gynrychiolwyr asiantaeth statudol a gwirfoddol a gynhelir yn lleol i rannu gwybodaeth am dioddefwyr sydd mewn perygl mawr o ddioddef camdriniaeth ddomestig. Gall asiantaeth gyfeirio oedolyn neu blentyn y credant sydd mewn perygl mawr o gael ei niweidio.Nod y cyfarfod yw llunio cynllun

gweithredu cydgysylltiedig i wella diogelwch, iechyd a lles oedolyn neu blentyn.Mae asiantaethau sy'n mynd i'r cyfarfod yn amrywio ond,yn eu plith, mae'n debygol  y bydd yr heddlu, y gwasanaethau prawf, plant, iechyd a thai.Mae dros 250 MARAC yn gweithredu ar hyn o bryd ar draws Cymru a Lloegr.

**Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu  (yr NPCC)**

Corff cydgysylltiedig sy'n galluogi prif gwnstabliaid a'u lluoedd i weithio gyda'i gilydd i wella plismona i'r cyhoedd.Mae'n gweithio'n agos â'r Coleg Plismona i ddatblygu dulliau gweithredu ar y cyd cenedlaethol ar faterion megis cyfiawnder troseddol, gwerth am arian, trawsnewid gwasanaethau, technoleg a rheoli perfformiad, yn ogystal â staff a materion adnoddau dynol (yn cynnwys camymddwyn a disgyblaeth). Nid yw'r NPCC yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo bwerau statudol.Disodlodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar 1 Ebrill 2015.

**Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**

Mae'n darparu gwasanaethau i lysoedd ac yn rheoli grwpiau penodol o droseddwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n dangos perygl mawr neu mawr iawn o niwed difrifol a'r rhai hynny sy'n destun MAPPA yng Nghymru a Lloegr.Fe'i sefydlwyd ym Mehefin 2014.

**Operation Talla**

Ymgyrch i arwain ymateb yr heddlu i Covid-19 yng Nghymru a Lloegr, dan arweiniad Cadeirydd yr NPCC

**Troseddwr TACT**

Person a gedwir dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 neu am droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth dan PACE

**Dioddefwr**

Mewn perthynas â throsedd honedig neu a amheuir, y person sy'n:

- dweud mai ef yw'r person y cyflawnwyd y drosedd yn ei erbyn neu y gellid ei chyflawni yn ei erbyn; neu
- y dywed neu yr ystyria person arall mai ef yw'r person y cyflawnwyd y drosedd yn ei erbyn neu y gellid ei chyflawni yn ei erbyn.

Wrth ddefnyddio'r term hwn, nid oes awgrym y diystyrir egwyddor sylfaenol cyfiawnder troseddol y rhagdybir bod unigolyn sydd dan amheuaeth neu a gyhuddir yn ddieuog. Dylid defnyddio'r term 'dioddefwr' yn yr adroddiad hwn yn unol â hynny.

### Sefydliad Troseddwyr Ifanc

Math o garchar i bobl oed 15 i 21 (cedwir pobl dan 18 mewn adeiladau gwahanol) a gynhelir gan y Gwasanaeth Carchardai a chwmnïau preifat. Mae lle ynddo irhwng 60 a 400 o bobl, wedi'i rannu'n 'adeiniau' o 30 i 60. Cyflwynwyd Sefydliadau Troseddwyr Ifanc dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988.

### Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid / Tim Troseddwyr Ifanc

Gwasanaethau a ariennir gan awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc hyd at 18 oed sy'n mynd i helynt gyda'r heddlu. Maent yn ymchwilio i gefndir person ifanc ac yn ceisio ei helpu i gadw draw oddi wrth droseddu; yn cynnal rhaglenni atal troseddu; helpu pobl ifanc os cânt eu harestio; helpu pobl ifanc a'u teuluoedd yn y llys; goruchwylio pobl ifanc sy'n treulio dedfrydau cymunedol a gweithio gyda phobl ifanc sydd yn y ddalfa.

**Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM**

**Swyddfa Llundain**
7th Floor, Tower
102 Petty France
Llundain SW1H 9GL
Ffôn. 020 7210 1160

**Swyddfa Efrog**
Foss House, Kings Pool
1–2 Peasholme Green
Efrog, Gogledd Swydd Efrog, YO1 7PX
Ffôn. 01904 54 5490

© Hawlfraint y Goron 2021

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim, mewn unrhyw
fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.
I weld y drwydded hon,
ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/
neu ysgrifennu i'r Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew,
Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn
justiceinspectorates.gov.uk/hmcpsi